



ABSTRACT

Lefel: Cyfnod Allweddol 3 – 11-14 oed (Blwyddyn 7-9)

Pynciau: Hanes ac Ysgrifennu Creadigol

Cyfanswm amser y dasg: 1 awr 30 munud. Gellid ei gwblhau mewn 2 sesiwn.





Ymarfer hanes byw gan Amgueddfa Llandudno.

Lefel: Cyfnod Allweddol 3 – 11-14 oed (Blwyddyn 7-9)

Pynciau: Hanes ac Ysgrifennu Creadigol

Cyfanswm amser y dasg: 1 awr 30 munud. Gellid ei gwblhau mewn 2 sesiwn.

Amcan: Helpu disgyblion i ddatblygu iaith ddisgrifiadol drwy ymchwilio synhwyrol. Creu cysylltiadau cymdeithasol rhwng profiadau personol a chyfrifon hanesyddol. Cynnig gofod ysgrifennu er lles sy'n galluogi disgyblion i gofnodi eu profiadau yn ystod y cyfnod clo.

Mae hanes yn llawn straeon go iawn wedi'u creu gan haneswyr yn seiliedig ar balaeontoleg, archeoleg, lluniau, llythyrau, papurau newydd, dyddiaduron personol, bywgraffiadau, hunangofiannau a chofiannau. Stori wiry w cofiant yn seiliedig ar un atgof neu gasgliad o atgofion am bwnc o bersbectif yr awdur. Gall cofiannau hanesyddol helpu ymchwilyr i ystyried digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau o bersbectif yr awdur. Mae cofiant da'n defnyddio profiadau synhwyrol hefyd, megis aroglau, blas, teimlad, sain a'r golwg, ac yn eu cyfuno gyda disgrifiadau emosiynol er mwyn creu darlun o'r profiad i'r darllenwr.

Fy Enghraifft: Roeddwn i'n 18 pan welais y môr am y tro cyntaf. Roedd golygfa godidog Myrtle Beach, De Carolina ym mis Gorffennaf yn berffaith, ac roeddwn i ar dan eisiau ymchwilio. Mae rhai pethau na fyddai rhywun sydd wedi'i fagu ger y môr yn meddwl dweud wrth rywun sydd heb fod yno erioed. Er enghraifft, bod arogl dwr mor yn brathu y tu mewn i'ch trwyn ac yn creu hafan halen iddo'i hun ar gefn eich tafod. Pa mor amhosibl yw cael gwared ar yr holl dywod cyn mynd i mewn i'r car. Bod popeth y byddwch yn ei fwyta ar lan y môr yn blasu fel tywod, heblaw am hufen ia! Ond yn bennaf, y ffordd y mae'r môr yn atgoffa person o ba mor fychan a bregus ydyn ni, yn syml iawn drwy ymestyn i gyffwrdd y gorwel sy'n llinell ddi-ddiwedd o las, llwyd a gwyn.

Felly sut mae'r byd yn edrych drwy eich llygaid chi? Dewch i weld. Y peth cyntaf i'w wneud yw ceisio cyfleu profiad o ryw beth syml. Pam? Oherwydd mae cofiant yn gofyn i chi gymryd y wybodaeth yr ydych wedi'i phrofi, a'i adrodd yn ol i'r darllenwr er mwyn iddo ei ddychmygu. Ystyriwch pa un o'r brawddegau isod sydd fwyaf diddorol i chi.

1. Roedd yr afal yn dda.
2. Roedd yr afal yn grensiog, yn felys ac yn gynnes yn yr haul ac yn ddigon sur i roi gwybod i chi ei fod yn ffres.

Mae'r ail frawddeg yn cyfleu cyfuniad o deimladau a blas. Os ydych wedi bwyta afal erioed, bydd eich meddwl yn awtomatig yn eich atgoffa o brofiadau ohonoch chi'n bwyta afal er mwyn eich helpu i ddychmygu sut beth yw bwyta'r afal YMA. Os nad ydych wedi bwyta afal, bydd eich meddwl yn mynd at y ffrwyth agosaf yr ydych wedi cael profiad ohono er mwyn eich helpu i ddychmygu sut all fwyta afal fod. Mewn cyfrifon hanesyddol, rydyn ni'n defnyddio'r profiadau bywyd go iawn hyn i ail-greu'r gorffennol yn ein dychmyg.

Tasg 1: Ewch i nol ffrwyth ac ysgrifennu ateb byr i'r cwestiynau canlynol:

1. Beth yw enw'r ffrwyth? Oes ganddo lysenw yn eich tŷ chi?
2. Sut mae'n edrych?
3. Sut mae'n arogl?
4. Sut mae'n blasu?
5. Sut mae'n teimlo yn eich dwylo? Sut mae'n teimlo yn eich ceg?
6. Sut mae'n swnio pan fyddwch chi'n bwyta tamaid?

Ar ôl i chi orffen ysgrifennu eich atebion. Holwch riant, brawd neu chwaer, neu ffrind am eu hatebion nhw i'r cwestiynau hyn. Efallai y byddwch yn synnu bod eu profiad nhw o fwyta'r un ffrwyth yn wahanol i'ch

Hanes Byw: Cyfnod Clo 2020

profiad chi. Does neb yn anghywir, mae pawb yn unigryw. Nid yn unig mae cofiant yn cyfleu digwyddiad, mae'n dweud wrthym am y person sy'n cael profiad o'r digwyddiad. Dewch i ni gario 'mlaen.

Tasg 2: Cofiant Cronolegol (Hyd y dasg yw tua 45 munud)

Y math o gofiant yr ydyn ni'n mynd i greu yw cofiant cronolegol. Golyga hyn ein bod ni'n trefnu'n gwybodaeth yn ôl y dyddiad y digwyddodd, yn debyg i ddyddiadur. Ysgrifennwch baragraff am bob un o'r testunau canlynol 1-6. Cadwch y testunau mewn trefn a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ysgrifennu gwybodaeth gywir. Cofiwch eich bod chi'n ceisio helpu darllenwr i ail-greu eich profiadau chi yn ei ddychymyg. Ceisiwch gynnwys o leiaf 1 o'ch 5 synnwyr ym mhob paragraff a chofiwch gynnwys eich teimladau. Peidiwch â phoeni am sillafu na gramadeg, ewch ati i ysgrifennu!

1. Beth mae'r Cyfnod Clo'n ei olygu i chi?
2. Sut oedd eich diwrnod arferol yn edrych cyn i'r cyfnod clo ddechrau?
3. Sut oeddech chi'n teimlo ar eich diwrnod cyntaf yn ystod y cyfnod clo?
4. Sut mae'ch diwrnod yn edrych nawr yn ystod y cyfnod clo?
5. Beth yw'r peth mwyaf diddorol yr wyt ti wedi'i ddysgu yn ystod y cyfnod clo?
6. Mewn blwyddyn, beth wyt ti'n meddwl y byddi di'n ei gofio fwyaf am y cyfnod clo?

Gwych! Efallai dy fod di'n meddwl bod y drafft cyntaf ychydig yn flêr. Mae hynny'n iawn, oherwydd mae ysgrifennu gwych bob amser yn flêr i ddechrau. Ein tasg nesaf yw perffeithio'r Gwaith fel bod pobl eraill yn gallu ei ddarllen a'i fwynhau.

Tasg 3: Paratoi dy Gofiant ar gyfer darllenwyr i'r dyfodol. (hyd y dasg tua 30 munud)

1. Darllenwch drwy eich drafft cyntaf a sicrhewch fod gennych enghraifft o bob un o'r 5 synnwyr a drafodais yn ystod Tasg 1 ym mhob paragraff. Y synhwyr hynny yw blas, sain, golwg, arogl, a theimlad. Os oes synnwyr ar goll, ceisiwch ei ychwanegu. Er enghraifft, un peth a sylwais ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod clo oedd pa mor dawel oedd y stryd heb geir.
2. Nesaf, gofynnwch i'ch hunain a fyddech chi'n deall beth ysgrifennoch chi mewn blwyddyn. Os ddim, gwnewch eich atebion yn symlach. Mae'n ddefnyddiol darllen eich atebion allan yn uchel fel y gallwch wrando allan lle mae eich ystyr neu iaith yn aneglur. Ceisiwch ailysgrifennu unrhyw frawddegau sy'n aneglur.
3. Copïwch eich cofiant cywir mewn llawysgrifen glir (neu ar gyfrifiadur) fel bod modd i rywun arall ei ddarllen. Peidiwch â phoeni am wneud bob brawddeg yn berffaith oherwydd y peth pwysicaf yw ei fod yn wir ac wedi'i ysgrifennu gennyh chi!
4. Yn olaf, rhowch eich enw, eich oedran, a'r dyddiad y gwnaethoch gwblhau'r cofiant ar eich drafft. Rhowch enw eich tref ar y gwaith os yr hoffech. Mae'r wybodaeth hon yn helpu haneswyr i wybod pwy, pryd a ble cafodd y cofiant ei greu. Gallwch hefyd roi teitl i'r cofiant ar yr adeg yma.

Llongyfarchiadau! Rydych newydd greu hanes.

Os ydych eisiau cynnal arbrawf gydag Amgueddfa Llandudno ar gofiannau fel hanes, gallwch ofyn i riant neu warcheidwad e-bostio llun neu gopi o'r cofiant i deann@llandudnomuseum.co.uk [<mailto:deann@llandudnomuseum.co.uk>](mailto:deann@llandudnomuseum.co.uk) gan nodi **Cofiant Cyfnod Clo 2020** yn y llinell bwnc. Blwyddyn o ddyddiad cyntaf cyfnod clo'r DU, bydd Amgueddfa Llandudno'n sicrhau bod y cofiannau hyn ar gael i'r cyhoedd eu darllen. Os nad ydych eisiau ei anfon i mewn, gallwch roi eich cofiant mewn amlen gan nodi'r dyddiad a'i roi i gadw am flwyddyn. Pan fyddwch yn ei ddarllen eto meddyliwch am sut mae eich barn o'r cyfnod clo wedi newid dros amser.

Llyfrau ffeithiol eraill all fod o ddiddordeb:
[Cofiant Hanesyddol](#)

Hanes Byw: Cyfnod Clo 2020

Night gan Elie Wiesel, 14 oed a hŷn.

Walden gan Henry David Thoreau, unrhyw oedran.

Cofiant Cyfnod Presennol:

Teen Angst? Naaah... gan Ned Vizzini, 14 oed a hŷn.

Is Everyone Hanging Out Without Me? (And Other Concerns) gan MINDY KALING, 16 oed ac hŷn

Do You Dream in Color? Insights From a Girl Without Sight gan Laurie Rubin, 13 oed a hŷn.

Cofiant Nofel Graffig:

They Called Us Enemy gan George Takei, Justin Eisinger a Steven Scott, 12 oed a hŷn

White Bird: A Wonder Story gan R. J. Palacio, 12 oed a hŷn

Persepolis gan Marjane Satrapi, 12 oed ac hŷn

El Deafo gan Cece Bell, 7 oed a hŷn

